

# SYNIADAU AR GYFER ADDYSGU

## BWYD MEWN LLUN

### Cyflwyniad

Pwy bynnag ydym ni, a ble bynnag yr ydym yn byw yn y byd, rydym i gyd yn rhannu'r un anghenion sylfaenol: bwyd, dŵr, lloches, cariad, teulu a ffrindiau. Defnyddiwch y casgliad lliwgar hwn o luniau a gweithgareddau cysylltiedig i helpu dysgwyr 7-14 oed i ystyried pwysigrwydd bwyd a ffermio ledled y byd, yn ogystal â'r heriau y mae rhai pobl yn eu hwynebu wrth geisio sicrhau digon o fwyd i'w fwyta. Nodi tebygrwydd a gwahaniaethau; cryfhau sgiliau holi, meddwl yn feirniadol a chydweithredu; herio rhagdybiaethau a stereoteipiau; meithrin empathi a datblygu parch at eraill.

### Sioe Sleidiau Bwyd mewn Llun

Mae'r sioe sleidiau ategol yn darparu detholiad amrywiol o luniau ar thema bwyd: pobl yn bwyta, yn coginio ac yn ffermio mewn gwahanol rannau o'r byd. Darperir gwybodaeth gefndir am bob un o'r lluniau yn nodiadau'r sleidiau. Gallwch ddefnyddio'r lluniau hyn mewn sawl ffordd yn yr ystafell ddosbarth, dyma rai syniadau addysgu posibl.

### Syniadau ar gyfer gweithgareddau

#### Rhowch eich hun yn y llun

Nod: Meithrin empathi a datblygu parch tuag at eraill

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis person mewn ffotograff a meddwl am yr hyn y gallai'r person hwn fod yn ei feddwl. Gallai'r dysgwyr dynnu llun o swigod meddwl ar nodiadau gludiog a'u hychwanegu at y ffotograff. Gellid gwneud hyn yn unigol neu ar y cyd mewn grwpiau.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis dau neu dri o bobl yn y ffotograff a dychmygu sgwrs y gallent fod yn ei chael. Gellid ysgrifennu swigod siarad ar nodiadau gludiog a'u hychwanegu at y ffotograff. Gellid datblygu'r syniad hwn drwy drefnu dysgwyr yn barau neu grwpiau o dri a gofyn iddynt chwarae rhannau'r cymeriadau ac actio sgwrs.

#### Meddwl y tu allan i'r ffrâm

Nod: Datblygu sgiliau dod i gasgliadau a herio rhagdybiaethau

- Ewch ati i leihau maint y lluniau mewn ffyrdd a fydd yn annog dysgwyr i ddychmygu beth sy'n digwydd "y tu allan i'r ffrâm".
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a rhoi un o'r lluniau wedi'u lleihau i bob grŵp, wedi'u gludo ar ddalen fawr o bapur. Yn ddelfrydol, dylai fod gan bob grŵp lun gwahanol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd yn eu grwpiau i ymestyn maint y llun drwy dynnu llun o'i amgylch.
- Pan fyddant wedi gorffen, rhowch amser i'r grwpiau gylchdroi ac edrych ar luniau'r grwpiau eraill a'u trafod.



- Yn olaf, dangoswch y ffotograffau "cyflawn" i'r dysgwyr a chymharwch y rhain â dehongliadau'r dysgwyr. Ymhlith y cwestiynau trafod posibl y mae:
  - Pam yr oeddech wedi ymestyn y llun fel hyn?
  - Pa dystiolaeth yr oeddech wedi'i defnyddio yn y llun i'ch helpu?
  - A oeddech wedi defnyddio unrhyw wybodaeth sy'n bodoli eisoes i'ch helpu? Os felly, beth?
  - A oeddech wedi seilio eich syniadau ar unrhyw ragdybiaethau, stereoteipiau neu ragfarnau? Os felly, beth? O ble y daeth y syniadau hyn?
  - Pa debygrwydd a gwahaniaethau oedd rhwng eich lluniau estynedig a'r ffotograffau cyflawn?

## Beth y mae delwedd yn ei ddweud wrthyf?

Nod: Dod i gasgliadau a thrafod syniadau gydag eraill

- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a rhoi copi o (neu fynediad i) un o'r delweddau i bob grŵp. Fel arall, gellid gwneud y gweithgaredd hwn gyda'r dosbarth cyfan gyda'i gilydd gan ddefnyddio un neu fwy o'r delweddau a arddangosir ar fwrdd gwyn rhyngweithiol.
- Anogwch y dysgwyr i feddwl am yr hyn y mae eu ffotograff yn ei "ddweud" wrthynt.
  - Sut beth yw'r tywydd?
  - A yw mewn amgylchedd trefol neu wledig?
  - Pa liwiau a siapiau y gallwch chi eu gweld?
  - Beth y mae'r bobl yn ei wneud?
  - Beth ydych chi'n ei wybod yn bendant am yr hyn sy'n digwydd yn y llun hwn?
  - Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
  - Yn eich barn chi, beth allai fod wedi digwydd cyn tynnu'r llun, a beth allai ddigwydd wedyn? Pam ydych chi'n meddwl hyn?

## Tebygrwydd a gwahaniaethau

Nod: Nodi tebygrwydd a gwahaniaethau

- Mae'n aml yn hawdd canolbwyntio ar wahaniaethau yn hytrach na'n tiroedd comin. Mae cefnogi dysgwyr i nodi tebygrwydd yn gyntaf, yn pwysleisio faint sydd gennym yn gyffredin ag eraill.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a rhoi copi o (neu fynediad i) un o'r delweddau i bob grŵp. Fel arall, gellid gwneud y gweithgaredd hwn gyda'r dosbarth cyfan gyda'i gilydd gan ddefnyddio un neu fwy o'r delweddau a arddangosir ar fwrdd gwyn rhyngweithiol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr holl bethau cyffredin a'r cysylltiadau rhwng eu bywydau a bywydau'r person (neu'r bobl) yn y llun.
- Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr nodi unrhyw wahaniaethau a thrafod rhesymau posibl dros y rhain.



## Gofyn cwestiynau am ddelwedd

Nod: Meithrin sgiliau cwestiynu a chasglu

Noder: Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio orau os caiff ei ddangos yn gyntaf i'r dosbarth cyfan gan yr athro, gan ddefnyddio un ffotograff fel enghraifft.

- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a rhoi copi o (neu fynediad i) un o'r lluniau i bob grŵp.
- Gofynnwch i'r dysgwyr weithio yn eu grwpiau i lunio rhestr o gwestiynau yr hoffent eu gofyn am eu delwedd. Anogwch nhw i feddwl am gwestiynau sy'n dechrau gyda Sut? a'r 5 Cwestiwn Pwysig (Beth? Pam? Ble? Pryd? Pwy?).
- Unwaith y bydd y dysgwyr wedi cofnodi detholiad o gwestiynau, gofynnwch iddyn nhw gategoreiddio'r cwestiynau hyn fel a ganlyn:
  - Y rhai y gellir eu hateb yn hawdd.
  - Y rhai y mae angen rhagor o wybodaeth amdanynt o lyfrau neu ffynonellau eraill.
  - Y rhai nad oes ateb pendant iddynt ond a fydd yn arwain at ddadl ehangach am y materion a godwyd yn y llun.
- Gallai'r dysgwyr naill ai dynnu sylw at y cwestiynau mewn gwahanol liwiau neu grwpio'r nodiadau gludiog yn y categorïau.
- Mae'n bwysig i ddysgwyr ddeall nad oes atebion clir i lawer o'r cwestiynau. Mater o farn yw llawer o'r atebion, er y gallant ymddangos fel rhai ffeithiol. Gallai dysgwyr hefyd benderfynu a yw eu cwestiynau'n rhai agored neu gaeedig. Mae cwestiynau agored yn aml yn arwain at fwy o gwestiynau a gall dysgwyr ddilyn ymholiad i'w hateb, tra bod cwestiynau caeedig yn tueddu i gael ateb mwy pendant neu fyrrach.
- Cofiwch ganiatáu amser ar ddiwedd y gweithgaredd i ddysgwyr gylchdroi o amgylch yr ystafell ddosbarth i edrych ar ffotograffau anodedig grwpiau eraill ac i ychwanegu mwy o gwestiynau at awgrymiadau blaenorol.

## Defnyddio fy synhwyrâu

- Trefnu dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a rhoi copi o (neu fynediad i) un o'r delweddau i bob grŵp. Fel arall, gellid gwneud y gweithgaredd hwn gyda'r dosbarth cyfan gyda'i gilydd gan ddefnyddio un neu fwy o'r delweddau a arddangosir ar fwrdd gwyn rhyngweithiol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod yn y llun ac yna trafod y cwestiynau canlynol:
  - Beth allwch chi ei glywed, ei arogl, ei weld a'i gyffwrdd?
  - Sut ydych chi'n teimlo?
  - Ydych chi am fod yma?

## Adnoddau addysg eraill Oxfam ynghylch bwyd

- **Bananas**

Wedi'i ddiweddarau gyda ffeithiau, ffotograffau a straeon newydd, mae'r adnodd hwn yn cefnogi dysgwyr 7-11 oed i fynd i'r afael â Masnach Deg a meddwl yn feirniadol am rai o'r heriau y mae ffermwyr banana yn eu hwynebu.



[www.oxfam.org.uk/education/resources/go-bananas](http://www.oxfam.org.uk/education/resources/go-bananas)

- **Her Bwyd Byd-eang**

Defnyddiwch yr adnoddau trawsgwricwlaidd hyn ar gyfer disgyblion 7-14 oed i addysgu am faterion bwyd byd-eang. Mae'n helpu dysgwyr i ddeall sut mae cadwyni cyflenwi byd-eang yn gweithio ar hyn o bryd, o ble mae ein bwyd yn dod, a rhai o'r heriau y mae'r ffermwyr ar raddfa fach yn eu hwynebu. Gall dysgwyr hefyd archwilio sut i eirioli dros system fwyd byd-eang decach a mwy cynaliadwy.

[www.oxfam.org.uk/education/resources/global-food-challenge](http://www.oxfam.org.uk/education/resources/global-food-challenge)

- **Y tu ôl i'r Codau Bar**

Mae'r adnodd hygyrch, rhyngweithiol hwn ar gyfer pobl ifanc 11-16 oed yn ymchwilio i gadwyni cyflenwi bwyd byd-eang, ac yn tynnu sylw at y dioddefaint dynol a'r cyflog isel a brofir gan y ffermwyr, y pysgotwyr a'r proseswyr bwyd sy'n gweithio i roi bwyd ar ein silffoedd. Mae'n awgrymu sut y gall pobl ifanc ddefnyddio eu lleisiau i annog archfarchnadoedd i wneud yn well, ac mae'n eu galluogi i ddatblygu sgiliau ymarferol, trosglwyddadwy fel ysgrifennu perswadiol, cyfathrebu ac arweinyddiaeth cymheiriaid.

[www.oxfam.org.uk/BTBschools](http://www.oxfam.org.uk/BTBschools)

## Dysgwch fwy am fwyd

- **O amgylch y byd mewn 80 o ddeietau**

Treuliodd y ffotograffwyr Peter Menzel a Faith D'Aluisio dair blynedd yn teithio o amgylch y byd i dynnu lluniau o'r hyn y mae 80 o bobl ledled y byd yn ei fwyta mewn un diwrnod. Mae detholiadau o'r lluniau ar gael ar-lein, gweler isod am un ddolen we bosibl. Defnyddiwch y ffotograffau i ysgogi trafodaeth ymysg eich dysgwyr am y tebygrwydd a'r gwahaniaethau yn y bwyd rydyn ni'n ei fwyta.

[www.telegraph.co.uk/foodanddrink/foodanddrinkpicturegalleries/8198839/What-I-Eat-Around-the-World-in-80-Diets-by-Peter-Menzel-and-Faith-DAluisio.html](http://www.telegraph.co.uk/foodanddrink/foodanddrinkpicturegalleries/8198839/What-I-Eat-Around-the-World-in-80-Diets-by-Peter-Menzel-and-Faith-DAluisio.html)

- **Gwasanaeth Addysg World Hunger**

[www.worldhunger.org/](http://www.worldhunger.org/)

- **Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig**

[www.fao.org/home/en/](http://www.fao.org/home/en/)

- **Rhaglen Fwyd y Byd**

[www1.wfp.org/zero-hunger](http://www1.wfp.org/zero-hunger)

## Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio ffotograffau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r amser y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

